

## **Cymuned ar y Cyd**

**Creu perthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref**

Canllawiau Terfynol

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
Cymuned ar y Cyd - Perthnasoedd mewn Llywodraeth Leol.....	3
Cymuned ar y Cyd - Meithrin Perthynas mewn Ymarfer .....	13
Cymuned ar y Cyd – Canllaw i Broses y Siarter.....	39
Cymuned ar y Cyd – Siarter Enghreifftiol .....	42

## Crynodeb Gweithredol

Nod y pecyn adnoddau hwn yw annog cysylltiadau agosach a mwy cynhyrchiol o fewn llywodraeth leol. Fe'i hysgrifennwyd yn benodol i fod yn hygyrch ac yn berthnasol i bawb mewn awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref. Gall hefyd gael ei ddefnyddio gan elfennau eraill o lywodraeth leol fel awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân a'r heddlu.

Ysgrifennwyd y pecyn mewn tair adran:

- Cefndir a chanllawiau cyffredinol.
- Canllaw arfer da ac awgrymiadau defnyddiol.
- Siarter enghreifftiol.

Mae'r dogfennau hyn yn gwbl gefnogol. Eu diben yw tynnu sylw at y cyfleoedd niferus i awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref weithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol.

Mae diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn flaenoriaeth barhaus i Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n seiliedig ar strategaeth "Creu'r Cysylltiadau". Gwnaeth Adolygiad Beecham hefyd nifer o argymhellion adeiladol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u hystyried. Un o ganlyniadau pendant iawn y broses ddiwygio yw'r ymrwymiad i roi'r dinesydd wrth galon y broses.

Y weledigaeth yw bod angen i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau hygyrch a chydlynus i bobl yn eu cymdogaethau lleol.

Mae angen i ddinasyddion allu ymgysylltu'n ddi-dor â darparwyr gwasanaethau ar bob lefel o wasanaeth cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn, bydd perthynas waith effeithiol a phartneriaethau gydag awdurdodau unedol a chyrrff cyhoeddus eraill yn galluogi cynghorau cymuned a thref i atgyfnerthu eu priodoleddau unigryw, a dod yn chwaraewyr mwy ymarferol ym maes gwasanaeth cyhoeddus.

Roedd astudiaeth ymchwil Prifysgol Cymru, Aberystwyth o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn flaenorol wedi argymhell perthynas weithio agosach rhwng

cyngorau tref a chymuned ac awdurdodau unedol ac wedi argymhell siarteri neu gytundebau fel ffordd o sefydlu'r rhain. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn glir y dylai siarteri fod yn wirfoddol ac nid yn rhwymedigaeth statudol. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio nad yw dirprwyo gwasanaethau'n deillio'n awtomatig o siarteri. Mae angen i'r penderfyniad i dderbyn neu ddirprwyo gwasanaethau gael ei archwilio a'i arfarnu'n ofalus gan y cyngor cymuned neu dref a'r awdurdod unedol dan sylw, a dod i gytundeb rhyngddynt.

Mae'r dogfennau hyn yn deillio o fwy na 12 mis o ymchwil a chydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Un Llais Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol a chynrychiolwyr cyngorau cymuned a thref ac awdurdodau unedol.

Y gobaith yw y bydd y dogfennau hyn yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol a fydd yn helpu i gynnal a gwella cysylltiadau yn y gymuned llywodraeth leol, gan hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yng Nghymru ar yr un pryd.

## **Cymuned ar y Cyd - Perthnasoedd mewn Llywodraeth Leol**

### **Cyflwyniad**

Diben y bennod hon yw darparu gwybodaeth gefndir a chanllawiau rhagarweiniol ar feithrin perthynas o fewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae trydydd tymor Llywodraeth Cynulliad Cymru yn golygu mwy o bwerau a chyfrifoldebau o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Felly mae perthnasoedd ystyrlon a gweithio ar y cyd bellach yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen.

Heb gydweithrediad adeiladol ymysg partneriaid cyflenwi, ni fyddai'n bosibl i Lywodraeth y Cynulliad wireddu ei gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gwell – "...dod ag oes newydd yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm, yn ymatebol i ddinasyddion, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl..."<sup>1</sup>

Mae **Cyfrifoldeb ar y Cyd**, y Datganiad Polisi Llywodraeth Leol, yn ailadrodd y weledigaeth hon ac yn nodi cyfraniad llywodraeth leol at yr agenda hwn sy'n dod i'r amlwg.

### **Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn a pham y cawsant eu datblygu?**

Mae cydweithio bob amser yn her, ac yn fwy fyth lle mae nifer y partneriaid yn fawr a'u natur yn amrywiol. Mae'r sefyllfa hon yn berthnasol i'r berthynas rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref gan fod nifer a natur cyngorau cymuned a thref yn wahanol ym mhob ardal awdurdod unedol. O ganlyniad, er y

bydd egwyddorion cyffredinol ac arferion da yn berthnasol i bawb, bydd dull rhagweithiol a hyblyg o ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol yn hanfodol.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n benodol at gynghorau cymuned a thref ac awdurdodau unedol ond maent hefyd yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus eraill fel awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân a'r heddlu. Mae'n ceisio gwneud y canlynol:

- Nodi'r rhesymeg dros wella perthnasoedd a gweithio ar y cyd.
- Rhoi cefndir a chyd-destun cryno.
- Nodi cyfleoedd a dulliau ar gyfer cydweithio'n effeithiol.

Yn Ar Draws y Ffiniau (Beyond Boundaries) Gorffennaf 2006, yr adolygiad o ddarparu gwasanaethau lleol yng Nghymru, y disgwyliad oedd y byddai awdurdodau unedol yn gweithio gyda chynghorau cymuned a thref i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon i gymunedau lleol. Roedd Syr Jeremy Beecham yn rhagweld mwy o rôl i gynghorau cymuned a thref o ran darparu gwasanaethau, yn ogystal â chynrychioli llais y dinesydd. Mae'n bwysig felly bod y berthynas rhwng cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau unedol yn gyfrwng effeithiol i glywed llais y dinesydd, a'r posibilrwydd o ddirprwyo gwasanaethau. Heb y cydweithio hwn, ac yn wyneb cyfyngiadau ariannol cynyddol, mae'n ddigon posibl y bydd ansawdd bywyd pobl Cymru yn cael ei danseilio.

Mae'r canllaw arferion da yn cynnwys detholiad o astudiaethau achos ac enghreifftiau, yn ogystal ag awgrymiadau defnyddiol eraill ac mae'n darparu awgrymiadau ac opsiynau ymarferol ar gyfer meithrin perthnasoedd mwy cynhyrchiol a allai wedyn arwain at siarteri neu gytundebau.

Mae siarteri yn ffordd o gryfhau perthnasoedd da ac mae model neu siarter enghreifftiol hefyd wedi'i chynnwys gyda'r canllawiau a'r astudiaethau achos.

### **Beth yw'r cysylltiad rhwng perthnasoedd a siarteri?**

Roedd **Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol** Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a gyhoeddwyd yn 2003, yn argymhell y dylai cytundebau siarter rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref gynnwys gweithdrefnau ar gyfer dirprwyo ystod benodol o swyddogaethau i gynghorau cymuned a thref achrededig.

Yn ei hymateb i'r argymhelliad hwn, yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylid cyflwyno siarteri drwy gytundeb lleol.

Fodd bynnag, mater i gynghorau cymuned a thref unigol sy'n dymuno darparu gwasanaethau dirprwyedig fyddai dangos eu bod yn gallu gwneud hynny'n effeithiol a llunio cytundeb lefel gwasanaeth gyda'u hawdurdod unedol. Fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru addo i hwyluso'r broses hon drwy gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru i lunio siarter enghreifftiol y gellid ei haddasu ar gyfer amgylchiadau unigol.

Yn gynnar yn 2006, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithgor siarter i edrych ar sut y mae awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yn rhyngweithio ar hyn o bryd, ac i gynhyrchu canllawiau priodol i wella'r berthynas ar sail yr wybodaeth hon. Y rhesymeg oedd pe bai'r cysylltiadau'n cael eu cryfhau, yna byddai'n fwy tebygol y byddai trafodaethau am ddirprwyo gwasanaethau yn cael eu cynnal.

Fodd bynnag, cytunodd y gweithgor hefyd mai dim ond camau i'r cyfeiriad cywir yw anogaeth i gymryd rhan mewn siarteri, a darparu model i hwyluso'r broses hon. Er mwyn manteisio i'r eithaf, mae angen i'r mesurau hyn fod yn rhan o fframwaith ymgysylltu mwy cynhwysfawr rhwng haenau'r llywodraeth.

Mae profiad o Loegr wedi dangos y gall siarteri fod yn adeiladol ac yn ystyrllon wrth iddynt esblygu o berthynas waith effeithiol rhwng haenau o lywodraeth leol. Mae cytundebau o'r fath fel arfer rhwng sawl cyngor cymuned a thref gyda'u hawdurdod unedol. Mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn atgyfnerthu perthnasoedd ar sail ffurfiol a phroffesiynol ac yn cynyddu cyfrifoldebau ac ymrwymadau'r naill a'r llall. Yn y bôn, dylai hyn hefyd arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a chymunedau lleol.

### **Pa fathau o berthnasoedd sydd gennym ar hyn o bryd?**

Ceir llawer o enghreifftiau o gysylltiadau cadarnhaol ac effeithiol rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Dangosodd ymatebion i arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gyda phob un o'r ddau awdurdod unedol ar hugain ym mis Medi 2006, fod llawer o awdurdodau'n dweud bod ganddynt fecanweithiau ffurfiol ar gyfer cwrdd â chynghorau cymuned a thref mewn fforymau chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu fframwaith sefydledig ar gyfer cyswllt a'r cyfle i gynnal cyfarfodydd rheolaidd.

Mae'r ymchwil yn dangos, ar wahân i fforymau, bod trefniadau anffurfiol eraill, yn ogystal â threfniadau ffurfiol, ar gyfer cyswllt sy'n unigol i bob awdurdod. Mewn rhai awdurdodau unedol, mae aelodau cabinet yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda chynghorwyr cymuned a thref. Mewn achosion eraill, mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned pan fydd eitemau perthnasol ar yr agenda.

Mae gan rai awdurdodau unedol hefyd swyddog penodedig sy'n cysylltu â chynghorau cymuned a thref yn yr awdurdod ac sy'n bwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad.

Mae'n ddiddorol nodi'r gwahanol ganfyddiadau o awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref pan ofynnwyd cwestiynau tebyg. Anfonodd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol holiadur hefyd at bob cleric yng Nghymru yn ystod mis Medi 2006 i gael syniad o sut mae cynghorau cymuned a thref yn gweithio mewn partneriaeth ar hyn o bryd. Derbyniwyd 109 o ymatebion, sef cyfradd ymateb o tua 15%. Dyfynnwyd nifer o bartneriaid amrywiol megis yr heddlu, byrddau iechyd lleol, ysgolion, clybiau rygbi, awdurdodau unedol, mudiadau gwirfoddol a chynghorau cymuned eraill yn yr ymateb.

O ran trefniadau cyswllt, nid oedd ymateb cynghorau cymuned a thref bob amser yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o drefniadau'r awdurdod unedol. Gall hyn fod oherwydd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys ymgysylltu gwael rhwng rhai cynghorau cymuned a thref a'r awdurdod unedol.

I'r cwestiwn "Oes gennych chi gytundeb ffurfiol gyda'ch awdurdod unedol/corff arall i ddarparu gwasanaethau?", nododd 26 o gynghorau cymuned a thref ar draws 12 awdurdod unedol fod ganddynt gytundeb i ddarparu gwasanaethau. Cynnal a chadw llwybrau troed/hawliau tramwy yw'r gwasanaeth dirprwyedig a nodir amlaf ac mae'n ymddangos yn fwyaf aml eu bod yn destun cytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.

Mae dau awdurdod unedol, Caerffili a Thorfaen sydd â siarteri (cytundebau) gyda'u cynghorau cymuned a thref. Nod y siarteri hyn yw helpu i feithrin perthnasoedd gwell ac ar hyn o bryd nid ydynt yn cynnwys dirprwyo dyletswyddau.

## **Pam fod cymaint o bwyslais nawr ar feithrin perthynas?**

Cafodd **Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni Ar Draws Ffiniau**, cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru i weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ei lansio ym mis Tachwedd 2006. Mae'r pwyslais, yn fwy nag erioed o'r blaen, ar "roi dinasyddion yn gyntaf" a "gweithio gyda'n gilydd i gyflawni".

Mae Pennod 3 y ddogfen bolisi hon yn dechrau gyda, "Mae rhoi dinasyddion yn gyntaf yn golygu bod Llywodraeth y Cynulliad a'r holl bartneriaid cyflenwi lleol yn gweithio'n llawer agosach gyda'i gilydd i sicrhau rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i hyn ddigwydd yn gyflym, yn bwrpasol ac yn effeithiol, heb greu biwrocratiaethau a phrosesau newydd. Mae rhoi sylw penodol i sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn golygu'r canlynol:

- Casglu a rhannu gwybodaeth wrthrychol am anghenion dinasyddion a chymunedau.
- Rhanberchnogaeth, ar draws sectorau, o'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys camau i sicrhau gwell gwerth am arian ar draws y gyllideb ac i raglenni cyflenwi ar y cyd y cytunwyd arnynt.
- Rhoi cyfrif i'r boblogaeth leol am berfformiad y gwasanaeth a gwella gwasanaethau'n barhaus er mwyn iddynt weithio'n well i ddinasyddion."

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn yr ardal, gan gynnwys cynghorau cymuned a thref, yn cydweithio i feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau effeithiol, fel eu bod yn gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w cymunedau'n barhaus ac yn gyson. Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth cynghorau cymuned a thref, nid yw'r berthynas yn cydymffurfio â fformiwla "un ateb i

bawb” a dyna pam mae’r bennod hon yn ceisio hwyluso’r broses o ddatblygu a gwella perthnasoedd drwy archwilio gwahanol opsiynau a dulliau.

Roedd “Cyfrifoldeb ar y Cod”, datganiad polisi llywodraeth leol Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007, yn disgrifio rôl y sector fel a ganlyn:

*“Mae gan y sector rôl bwysig sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, nid yn unig o ran hyrwyddo cyfathrebu cryf a chanolbwyntio ar faterion ansawdd bywyd (neu fywoliaeth) lleol iawn, ond hefyd o ran darparu gwasanaethau. Cynghorau cymuned a thref yw’r uned fwyaf lleol o lywodraeth leol. Mae hyn yn golygu bod ganddynt lawer o ffyrdd uniongyrchol o ganfod a galluogi darparu gwasanaethau mewn ymateb i flaenoriaethau dinasyddion. Gall y sectorau statudol mwy elwa o’r arbenigedd hwn os oes ymgysylltu rhwng sefydliadau lleol a sefydliadau lleol iawn.”*

Mae’r datganiad hefyd yn atgyfnerthu ymrwymiad argymhelliad astudiaeth Aberystwyth ar siarteri drwy addo datblygu canllawiau a fframwaith siarter cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref.

Bydd datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol ledled Cymru hefyd yn gofyn am gysylltiadau o ansawdd uchel rhwng yr holl sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus a chysylltiad effeithiol â deall pryderon dinasyddion.

Mae gan gynghorau cymuned a thref, fel darparwyr gwasanaethau, ond hefyd yn eu rôl fel llais y dinesydd, gyfraniad pwysig i’w wneud at ddatblygu a gweithredu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn effeithiol. Caiff hyn ei amlygu ym mhrosbectws Llywodraeth y Cynulliad ar fyrdau gwasanaethau lleol:

*“Bydd angen i fyrdau gynnwys yr asiantaethau statudol sy’n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus yn yr ardal, Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r sectorau gwirfoddol a busnes. Bydd arnynt angen mecanweithiau ar gyfer llais a her effeithiol i ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys drwy Gynghorau Tref a Chymuned, ac ar gyfer cynnwys staff yn yr agenda wella.”*

### **Gweledigaeth gyffredin, Nodau cyffredin**

Mae’r bennod hon yn canolbwyntio ar berthnasoedd a gweithio ar y cyd. Os cododd yr angen a bod angen trefniant mwy ffurfiol, mae gan gysylltiadau effeithiol y sylfaen angenrheidiol i ddatblygu’n bartneriaethau.

Mae partneriaeth effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy’n gysylltiedig fod yn rhan ystyrlon o waith y bartneriaeth a bod yn glir ynghylch eu rolau a’u cyfrifoldebau. I’r rhan fwyaf o bartneriaethau, meithrin ymddiriedaeth rhwng partneriaid yw un o’r elfennau pwysicaf o lwyddiant. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd amser ac ymdrech go iawn.

Nid oes cymaint o bartneriaethau yn yr ystyr gaeth o fewn y berthynas rhwng yr awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref. Efallai mai trefniadau lle ceir cytundebau lefel gwasanaeth fyddai’r enghraifft fwyaf amlwg o’r math o bartneriaeth sy’n bodoli.

Fodd bynnag, pe bai siarteri'n cael eu datblygu, yna byddai disgwyl i'r ddau barti anelu at fwy o ddull partneriaeth o ryngweithio. Ni ddylai hyn ddibynnu ar ddirprwyo swyddogaethau.

Mae meithrin amgylchedd lle gall ymddiriedaeth a chyd-barch ddatblygu yn hanfodol. Po fwyaf aml y ceir cyswllt rhwng yr haenau, y mwyaf yw'r cyfleoedd i hybu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall.

Yn anad dim, mae angen eglurder llwyr ynghylch nod y bartneriaeth ac awgrymir, yng nghyd-destun siarteri, mai'r nod cyffredinol ddylai fod hyrwyddo cydweithio rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref gyda golwg ar wella gwasanaethau cyhoeddus yn lleol.

### **Fframwaith**

Gan fod gan bob ardal awdurdod unedol niferoedd gwahanol o gynghorau cymuned a thref o fewn ei ffiniau, yn amrywio o un i dros gant, dim ond os oes fframwaith cytûn ar gyfer cyswllt a chyfathrebu yn ei le y gellir cyflawni rhyngweithio ystyrlon a chynaliadwy.

Mae angen gwneud hyn ar lefel y cynghorydd a'r swyddog, o Arweinydd a Phrif Weithredwr yr awdurdod unedol i bob cynghorydd a graddfa staff o fewn yr awdurdod unedol, yn ogystal ag yn y cynghorau cymuned neu dref. Dylid anelu at annog cyswllt rhwng y meysydd gwleidyddol a gweinyddol.

### **Cyfathrebu**

Mae cyfathrebu rheolaidd a chliir hefyd yn bwysig. Bydd cymysgedd da o ddulliau cyfathrebu yn helpu i feithrin perthnasoedd da. Mae gan gyfathrebu wyneb yn wyneb, dros y ffôn, e-bost a chyfathrebu ysgrifenedig i gyd eu defnyddiau a'u manteision.

Mae cynnwys, hygyrchedd ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyfleu yn bwysig os mai'r neges yw darparu'r sail ar gyfer gweithredu a/neu ymateb priodol.

Mae'n bwysig bod cyfathrebu clir, prydlon a hawdd ei ddefnyddio ar draws pob lefel o'r awdurdod unedol gyda chynghorau cymuned a thref. Ceir cydweithrediad a chefnogaeth drwy gyfathrebu effeithiol ac i'r gwrthwyneb.

### **Datrys problemau**

Bydd tensiynau anochel o fewn pob math o gydweithio ac mae'n bwysig bod ymrwymiad gan bob ochr i ddatrys y rhain yn gyflym ac yn gyfeillgar. Fodd bynnag, bydd perthnasoedd gwaith agos weithiau'n tynnu sylw at rai materion heriol.

Gall tensiynau a dryswch ddigwydd o bryd i'w gilydd pan fydd cynghorydd yn aelod o awdurdod unedol a chynghor tref neu gymuned. Dylai cynghorwyr o'r fath fod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ym mhob un o'r rolau hyn, a mater i'r



awdurdod unedol a'r cyngor tref neu gymuned dan sylw yw cytuno ar brotocol ar gyfer cynghorwyr o'r fath.

Mae cyllid yn faes arall sy'n aml yn achosi tensiynau. Mae'n hanfodol bod y broses o bennu'r dreth gyngor a phennu'r praesept yn dryloyw fel bod yr awdurdod unedol a'r cyngor cymuned a thref yn rhannu'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth gyllidebu.

## **Gwerthuso**

Mae'n hanfodol cynnwys y cyfle i werthuso'r hyn a gyflawnwyd dros gyfnod o amser o ganlyniad i gysylltiadau gwell. Mae'r broses werthuso yn dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella perthnasoedd os gwneir hynny mewn modd adeiladol ac agored. Bydd ymarfer gwerthuso yn sicr o helpu i ganfod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio. Bydd hefyd yn helpu i gasglu arferion da, gwella morâl ac arwain at wneud penderfyniadau gwell. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol cynnwys darpariaeth ar gyfer gwerthuso wrth ddatblygu a gweithredu siarter.

## **Datblygu sgiliau ac arbenigedd**

Cydnabyddir nad yw llawer o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru wedi cael y fantais o hyfforddiant a datblygiad rheolaidd yn y gorffennol. Mae hyn yn cael sylw nawr drwy'r **Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref** yng Nghymru a gyhoeddwyd ac a ddosbarthwyd ym mis Medi 2006.

Bydd y gallu i ddarparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth yn cael ei wella drwy ddatblygu arbenigedd, cymhwysedd a sgiliau clerod a chynghorwyr cynghorau cymuned a thref. Felly, bydd angen i hyfforddiant a datblygiad gydredeg â meithrin perthynas.

Dylid annog cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd ar gyfer y ddwy haen o lywodraeth leol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer hyfforddi cynghorwyr. Mae llawer o fanteision i hyfforddiant ar y cyd, gan gynnwys ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau a phryderon y naill a'r llall; rhwydweithio a meithrin cysylltiadau; a defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Nid yw clystyru ymysg grwpiau bach o gynghorau cymuned a thref wedi datblygu'n dda ar hyn o bryd. Lle bo hynny'n ymarferol, gallai hyn fod yn ffordd o gyfuno adnoddau, megis cyllid a staffio, a gallai ddarparu gwasanaethau i'r gymuned na fyddent wedi'u cael fel arall.

Efallai y bydd grwpiau o gynghorau hefyd yn ei chael yn ymarferol derbyn cytundebau lefel gwasanaeth gan yr awdurdod unedol lle byddai hyn yn darparu gwasanaeth gwell i'r gymuned.

Mae clystyru hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ar y cyd ac yn hyrwyddo rhannu arferion da.

## **Sefydliadau cynrychioliadol**

Mae'n hanfodol bod gan **Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**, **Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)** berthynas agos â'i gilydd a'u bod yn meithrin gweithio effeithiol o fewn llywodraeth leol. Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio wedi gwella ers ffurfio Un Llais Cymru ac mae gan yr olaf bellach femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r SLCC.

Mae CLILC wedi darparu arweiniad a chefnogaeth ar gyfer y Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol ac mae mwy a mwy o gydweithredu gydag Un Llais Cymru o ganlyniad i'r agenda 'Ehangu Cyfranogiad' sy'n hyrwyddo dinasyddiaeth ac yn tynnu sylw at rôl pob cynghorydd cyn etholiadau'r dyfodol. Gellir hwyluso cydweithio pellach drwy wneud y canlynol:

- Cynnal cyfarfodydd strategol rheolaidd ar lefel genedlaethol.
- Sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Un Llais Cymru a CLILC.

## **Cytuno ar Siarter ffurfiol**

Ceir llawer o enghreifftiau o gysylltiadau cadarnhaol ac effeithiol rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhain yn achlysurol ac yn dibynnu ar gymhelliant ac ymrwymiad personol unigolion penodol.

Argymhellir felly y dylid cytuno ar gytundebau ffurfiol a phrotocolau cyfathrebu rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref er mwyn sicrhau eglurder o ran disgwyliadau a dealltwriaeth o rolau perthnasol.

Mae cytundebau ysgrifenedig amrywiol rhwng rhai cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau unedol eisoes yn bodoli yng Nghymru. Gelwir rhai o'r rhain yn siarteri ac maent yn nodi'r ffordd y mae dwy haen y llywodraeth yn cyfnewid gwybodaeth yn bennaf ac yn ymgynghori â'i gilydd.

Mae tystiolaeth o Loegr, lle mae siarteri wedi bod yn datblygu dros gyfnod hwy o amser, yn dangos bod perthynas dda rhwng pob haen o lywodraeth yn arwain at fwy o dderbyn a dealltwriaeth o'r cytundeb. Mae'n dod yn fodd o reoleiddio arferion gwaith effeithiol ac yn cynnig proses sy'n golygu y gall pob parti ddweud ei dweud ac ymrwymo iddi. Mae'r broses o gyrraedd siarter yr un mor bwysig â'r siarter ei hun oherwydd mae'n gofyn am ymgynghori a negodi manwl.

Lluniwyd siarter enghreifftiol sy'n defnyddio amrywiaeth o elfennau sy'n rhan o gytundebau presennol o Gymru a Lloegr. Darperir y model hwn ochr yn ochr â'r canllawiau hyn a gellir ei ddefnyddio fel pro-fforma.

Mae'r model yn tynnu sylw at rai agweddau ar weithio sydd yr un mor bwysig i awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref. Mae'r rhain yn cynnwys "cydnabod", "ymgyngori", "gwybodaeth a chyfathrebu", "cynllunio defnydd tir" ac eraill.

Fodd bynnag, mae disgrisiwn a hyblygrwydd lleol yn hanfodol wrth gytuno ar siarter. Mae angen i siarter fod yn gytundeb pwrpasol ac felly mater i awdurdodau unedol unigol a chynghorau cymuned a thref yw defnyddio hwn fel man cychwyn i ddod i gytundeb sy'n gweddu orau iddynt.

Argymhellir bod pob awdurdod unedol yn cytuno ar un siarter gyda'r sbectrwm llawn o gynghorau cymuned a thref yn ei ardal. Mae hyn yn golygu y bydd y siarter yn cael ei defnyddio'n gyffredinol yn yr ardal ac yn gweithredu fel cwlwm cyffredin sy'n dod â chynghorau cymuned a thref at ei gilydd, yn ogystal â'r awdurdod unedol.

Mae'n ddoeth i'r ddwy ochr ystyried yn llawn oblygiadau ehangach yr ymrwymadau y maent yn ymrwmo iddynt a gwneud yn siŵr eu bod yn gallu cyflawni eu haddewidion. Mae angen iddynt hefyd gydnabod, drwy ymrwmo i drefniadau gweithio ar y cyd, y gall fod rhai canlyniadau na fyddent o reidrwydd wedi'u rhagweld. Mae angen cymryd gofal penodol pan wneir partneriaethau ffurfiol fel yn achos cyngor cymuned neu dref sy'n ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig gan yr awdurdod unedol. Yn yr achos hwn, argymhellir y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol wrth lunio cytundeb.

Mae cynlluniau gweithredu i gyd-fynd â siarteri yn ddefnyddiol fel ffordd o sicrhau rhyng-weithredu a chynnydd parhaus unwaith y cytunir ar y siarter.

Bydd angen diwygio a diweddarau'r Siarteri hefyd yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau lleol.

### **Dirprwyo gwasanaethau**

Gall siarteri fod yn ffordd o wella perthnasoedd a chyfathrebu, yn ogystal â ffordd o weithredu swyddogaethau moesegol a gweinyddol. Fodd bynnag, gallant hefyd gynnwys gweithdrefnau, gan gynnwys trefniadau ariannol, ar gyfer dirprwyo gwasanaethau o awdurdodau unedol. Wrth ystyried unrhyw ddirprwyo gwasanaethau, awgrymir y dylid canolbwyntio'n gadarn ar wella'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol, wrth gadw neu wella gwerth am arian. Efallai hefyd y bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion capasiti er mwyn galluogi'r cyngor cymuned neu dref i ddarparu'r gwasanaeth dirprwyedig.

Cred Llywodraeth y Cynulliad fod dirprwyo gwasanaethau yn ddewis gwirfoddol a rhaid iddo fod yn ganlyniad i gytundeb lleol rhwng yr awdurdod unedol a chynghor cymuned neu dref. Mae gan gynghorau cymuned a thref lefelau amrywiol o gapasiti, dyheadau ac ar hyn o bryd bydd angen i lawer elwa o'r Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol a mathau eraill o gymorth cyn iddynt gael yr hyder a'r gallu i gyflawni'r swyddogaethau hyn.

Mae angen i'r awdurdod unedol fod yn ffyddiog bod gan y cyngor cymuned neu dref sy'n dymuno ymgymryd â gwasanaeth dirprwyedig y pwerau i ddelio â swyddogaeth o'r fath.

Rhaid i drefniadau clir fod ar waith o ran atebolrwydd y cyngor cymuned neu dref am y gwasanaeth y mae wedi'i dderbyn gyda therfynau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer awdurdod y mae angen atgyfeirio'r achos i awdurdod unedol y tu hwnt iddo.

### **Materion cyllido**

Cynghorau cymuned a thref sy'n codi'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer eu gweithgareddau drwy braesept a godir yn y Dreth Gyngor. Mae'n bwysig felly, cyn i'r trethi hyn gael eu cyfrifo, bod trafodaethau rhwng yr awdurdod unedol a chynghorau cymuned a thref i sicrhau bod swyddogaethau cydredol yn cael eu gwella neu eu hystyriaeth yn sylweddol yn y fath fodd fel eu bod yn ychwanegu gwerth wrth fynd i'r afael ag anghenion y gymuned. Dylid hefyd annog rhannu ymwybyddiaeth o gynlluniau a datblygiadau yn y dyfodol.

Pan fydd cyngor tref neu gymuned yn ymgymryd â darparu gwasanaethau penodol, bydd angen i'r awdurdod unedol a'r cyngor perthnasol gytuno ar lefel y cyllid a'r telerau. Gall hyn arwain at amrywiaeth o rwystrau y mae angen eu datrys. Un o'r prif ystyriaethau i'w hystyried yw osgoi trethiant dwbl.

Yn ôl canllawiau Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig

*“Ni ellir mynd i'r afael â'r broblem trethiant dwbl ar ei phen ei hun gan mai dim ond yng nghyd-destun ehangach cysylltiadau da rhwng ac o fewn haenau llywodraeth leol y mae datrysiad llwyddiannus yn debygol o gael ei gyflawni....Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau sy'n nodi sefyllfa foddhaol o ran trethiant dwbl eisoes siarteri, fforymau a dulliau eraill y cytunwyd arnynt o gysylltu'n rheolaidd rhwng haenau. Dywedodd llawer o ymatebwyr o'r fath mai gorau po fwyaf yw'r berthynas, po leiaf yw'r problemau.”*

Heb os, mae ystyriaethau ariannol yn bwysig, ond mae amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â hwy a bydd y broses o sicrhau consensws ond yn cryfhau'r berthynas ymhellach ac yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Ni ddylid defnyddio anawsterau wrth oresgyn rhwystrau ariannol fel rheswm dros beidio â chymryd rhan mewn siarteri.

### **Casgliad**

Mae'r canllawiau hyn wedi cyflwyno'r cysyniad o weithio mewn siarter ac wedi ceisio ei osod yng nghyd-destun polisi presennol llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gan gydnabod bod ffurf siarter yn y pen draw yn fater i awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref gytuno arno'n lleol, credir bod siarter yn cynnig cyfle sylweddol i ffurfioli arferion da presennol a datblygu gweithio agosach er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## **Cymuned ar y Cyd - Meithrin Perthynas mewn Ymarfer**

Mae'r bennod hon yn cyd-fynd â'r canllawiau ar berthnasoedd a'r siarter enghreifftiol. Ei nod yw darparu cymorth ymarferol ac awgrymiadau sy'n dilyn yr is-benawdau a ddefnyddir yn y canllawiau i symleiddio croesyfeirio.

### **Gweledigaeth Gyffredin, Nodau Cyffredin**

Mae sawl ffordd o hwyluso dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. Mae gwell ymwybyddiaeth yn aml yn arwain at wireddu cyfrifoldebau ar y cyd. Gall hyn yn ei dro arwain at ganlyniadau adeiladol i'r gymuned.

### **Astudiaeth Achos 1 – Mentrau ar y cyd**

*Nodau/Amcanion:*

Goresgyn effeithiau economaidd negyddol cau prif gyflogwr yr ardal.

*Ble?* Trawsfynydd, Gwynedd, Gogledd Cymru.

*Sut cafodd hyn ei wneud?*

Daeth swyddi'n brin pan gafodd gorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd ei datgomisiynu. Cynhaliodd y cyngor cymuned arfarniad yn 1994 a oedd â chyfradd ymateb o 86% ac a arweiniodd at lawer o brosiectau. Ffurfiwyd cwmni cymunedol Trawsnewid mewn partneriaeth â'r cyngor cymuned i ysgogi datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae aelodaeth o'r cwmni yn agored i'r holl breswylwyr dros 18 oed ac mae 245 wedi talu'r tanysgrifiad nominal o £1. Mae hyn yn rhoi llais i aelodau'r gymuned wrth redeg y cwmni.

*Pwy oedd yn rhan o hyn?*

Cyngor Sir Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, The Prince's Trust, Cyngor Cymuned Trawsfynydd a Thrawsnewid.

*Beth wnaeth ei gyflawni?*

Mae adeilad afraid yng nghanol y pentref wedi cael ei adnewyddu yn siop waith, awditoriwm, swyddfa, canolfan arddangos a gwesty ugain gwely. Mae'r adeilad yn eiddo i'r cyngor cymuned ond yn cael ei redeg gan Trawsnewid. Y rheolwr hefyd yw clerc y cyngor cymuned a chyflogir dau aelod o staff llawn-amser a phum aelod o staff rhan-amser. Cafwyd cyllid ar gyfer y prosiect gwerth £750,000 gan Gronfa Adfywio Amcan Un Ewrop, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, cyn Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Gwynedd, Tanwydd Niwclear Prydain, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, The Prince's Trust a Traws-Newid.

Mae'r hostel a'r ganolfan dreftadaeth yn brosiectau sy'n cynhyrchu refeniw ar raddfa fach.

*Cysylltu:* I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â chlerc a rheolwr Traws-Newid yn [trasnewid@btconnect.com](mailto:trasnewid@btconnect.com) neu 01766 540400.

## **Astudiaeth Achos 2 – Gweledigaeth ar y cyd**

*Nodau/Amcanion:*

Datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer datblygu cymuned yn y dyfodol

*Ble?*

Cydweli a Mynyddygarreg, Sir Gaerfyrddin, De-orllewin Cymru.

*Sut cafodd hyn ei wneud?*

Cynhaliwyd y digwyddiad Diwrnod Creu Gweledigaeth gan y Fforwm Tref ar y cyd â Chyngor Tref Cydweli a Menter Cwm Gwendraeth. Sefydlwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd yn Neuadd y Dywysoges Gwenllian gan Fforwm y Dref a Chyngor y Dref, i annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan mewn holiadur, a defnyddir y canlyniadau i oleuo'r strategaeth 5 mlynedd sydd i ddod ar gyfer y ddwy gymuned. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i'r grwpiau lleol gynnal arddangosfa o'r hyn sydd ar gael yn yr ardal gyfagos.

Gwahoddwyd amrywiaeth eang o bartneriaid sy'n cynnig gwasanaethau i'r ardal hefyd. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys yr heddlu lleol, y bwrdd iechyd lleol, y Cyngor Sir, Llygad Busnes a Foothold.

Rhoddodd y Fforwm a Chyngor y Dref gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad yn y papurau lleol, ar yr orsaf radio leol ac ar bosteri ledled y dref a'r pentref. Er mwyn annog cymaint â phosibl o'r gymuned leol i fynychu, mae aelodau'r Fforwm a Chyngor y Dref yn dosbarthu taflenni i bob cartref ym Mynyddygarreg a Chydweli.

*Pwy oedd yn rhan o hyn?*

Cynllunio a chynnal y digwyddiad: Fforwm Tref Cydweli, Cyngor Tref Cydweli, Menter Cwm Gwendraeth, Ymddiriedolwyr Canolfan y Dywysoges Gwenllian a Swyddog Prosiect Cydweli.

Roedd dros 40 o sefydliadau lleol a chenedlaethol yn bresennol ar y diwrnod, yn amrywio o'r tîm pêl-droed iau lleol a chymdeithas hanesyddol i Gyngor Sir, Llygad Busnes, Bwrdd Iechyd Lleol a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

*Beth wnaeth ei gyflawni?*

- rhwydweithio rhwng yr holl grwpiau lleol.
- rhwydweithio rhwng y grwpiau lleol a darparwyr gwasanaethau lleol
- cyfle i bawb sy'n cymryd rhan gwrdd â darparwyr grantiau a hyfforddiant yn yr ardal leol.
- mwy o ymwybyddiaeth o'r grwpiau sy'n darparu'r gwasanaethau lleol yn yr ardal leol.
- set o ganlyniadau a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Cydweli a Mynyddygarreg.

### *Cysylltu:*

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â chlerc Cyngor Tref Cydweli ar 01554 890203 neu anfonwch e-bost at [towncouncil@kidwelly.gov.uk](mailto:towncouncil@kidwelly.gov.uk)

### *Mwy o syniadau ... gweledigaeth gyffredin, nodau cyffredin:*

- Datblygu'r Strategaeth Gymunedol.
- Gosod cyllidebau a phraeseptau gyda'i gilydd.
- Cynghorwyr ward i fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref ac fel arall.
- Hyfforddiant ar y cyd (gan gynnwys hyfforddiant cynefino ar gyfer cynghorwyr sydd newydd eu hethol).
- Menter ar y cyd e.e. sefydlu cerbydau ar gyfer prosiectau adfywio penodol, cynlluniau gweithio ieuencid ar y cyd, gweithgorau ac ati.
- Cytuno ar gytundebau lefel gwasanaeth.
- Ymgynghori â'n gilydd wrth wneud ceisiadau am gyllid

## **Llywodraethu/Fframwaith**

Mae'n bwysig bod awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yn cynnal cysylltiadau agos. Gellir hwyluso hyn drwy drefniadau penodol i sicrhau ymgysylltu a chyswllt effeithiol rhyngddynt.

### **Astudiaeth Achos 3 – Datblygu strategaeth gymunedol**

#### *Nodau/Amcanion:*

Sicrhau bod cynghorau cymuned yn rhan o'r dull partneriaeth o sefydlu a gweithredu'r Strategaeth Gymunedol.

#### *Ble?*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

#### *Beth yw'r gweithgaredd/menter?*

Sefydlwyd Partneriaeth Torfaen i gymryd perchnogaeth dros y broses o ddatblygu Strategaeth Gymunedol, yn ogystal â sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu. Mae cynghorau cymuned yn bwysig er mwyn rhoi dealltwriaeth i'r bartneriaeth o faterion a blaenoriaethau pobl yn eu hardaloedd a hefyd am eu bod yn gwneud gwaith uniongyrchol o fewn eu cymunedau.

#### *Sut cafodd hyn ei wneud?*

Felly, gwahoddwyd y Cynghorau Cymuned i benodi Cynghorydd cynrychioladol a Clerc i ddod yn aelodau o Bartneriaeth Torfaen. Mae pwyllgor cyswllt Cyngor Cymuned yn bodoli lle gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r Cynghorau Cymuned gyfnewid gwybodaeth a thrafod materion sy'n berthnasol i'w gilydd ac i'r fforwm hwn y estynnwyd gwahoddiad. Mae'r cynrychiolwyr wedi mynychu pob cyfarfod o Bartneriaeth Torfaen ac wedi cymryd rhan weithredol yn y materion a'r trafodaethau. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gynnal ymgynghoriad cymunedol, casglu data a llunio'r Strategaeth Gymunedol ei hun.

#### *Pwy sy'n cymryd rhan?*

Er bod un Cynghorydd ac un Clerc yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd Partneriaeth Torfaen, maent yn chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau bod y Cynghorau Cymuned eraill yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau.

#### *Beth mae'n ei gyflawni?*

Lluniwyd y Strategaeth Gymunedol ac mae'n seiliedig yn drwm ar sicrhau canlyniadau i bobl Torfaen. Rhywbeth yr oedd y Cynghorau Cymuned yn arbennig o awyddus i'w ganfod, gan gynnal bod rhaid i welliant mewn ansawdd bywyd ganolbwyntio ar ddinasyddion.

Mae'r cynrychiolwyr wedi chwarae rhan hanfodol fel cyfrwng rhwng Partneriaeth Torfaen a'r Cynghorau Cymuned – er enghraifft aeth Cylich Gorchwyl Partneriaeth



Torfaen a'r Strategaeth Gymunedol ddrafft yn ôl at y Cyngorau Cymuned i'w trafod a chytuno arnynt.

Yn ystod yr ymarferion casglu gwybodaeth ac ymgysylltu, mae'r Cyngorau Cymuned wedi helpu i drefnu digwyddiadau ymgynghori cymunedol fel ymgynghori â'r gymuned ynghylch Mannau Agored. Fe'u gwahoddwyd hefyd i gyflwyno eu safbwyntiau eu hunain ar y materion y dylai'r Strategaeth Gymunedol eu cynnwys – gwnaed hyn drwy holiadur. Wrth wneud hynny, chwarae rhan allweddol yn y broses ymgysylltu.

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Perfformiad ac Ymgysylltu a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol wedi bod yn cyfarfod â Chynghorau Cymuned unigol (drwy wahoddiad) i drafod y Strategaeth Gymunedol a'r camau nesaf sy'n ymwneud â rhoi'r strategaeth ar waith. Mae'r dull gweithredu'n gyson â'r bwriad o greu deialog barhaus sy'n seiliedig ar bartneriaeth wrth i Bartneriaeth Torfaen esblygu i fod yn Fwrdd Gwasanaeth Lleol.

*Cysylltu:*

Mark Sharwood, 01495 766323 [mark.sharwood@torfaen.gov.uk](mailto:mark.sharwood@torfaen.gov.uk)

## **Astudiaeth Achos 4 – Cyfarfodydd Clwstwr**

### *Nodau/Amcanion:*

Gwella'r sianelau cyfathrebu ac ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol presennol gyda Chynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych drwy sefydlu cyfarfodydd 'clwstwr'. Mae'r fforwm hwn yn dod â chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned at ei gilydd i gwrdd â Swyddogion Cynghorau Sir i drafod cynlluniau newydd ac i egluro polisïau newydd a newidiadau deddfwriaethol yn fanwl.

### *Ble?*

Sir Ddinbych.

### *Sut cafodd hyn ei wneud?*

Cafodd tri grŵp 'clwstwr' daearyddol o gynghorau tref a chymuned eu creu, sy'n cwrdd â Swyddogion y Cyngor Sir i drafod polisïau neu faterion newydd sy'n berthnasol iddynt yn fanwl. Mae'r cyfarfodydd wedi'u targedu at Glercod y Cyngor yn benodol er bod y gwahoddiad hefyd yn cael ei estyn i'r Cadeiryddion neu'r Meiri.

### *Pwy sy'n cymryd rhan?*

Mae gan Uned Polisi Strategol y Cyngor Sir rôl gyswllt gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac mae'n cymryd yr awenau o ran datblygu'r cyfarfodydd 'Clwstwr'. Ymgynghorwyd â Chynghorau Tref a Chymuned ar bob cam o'r datblygiad o ran nifer y 'clystyrau', pa grŵp daearyddol yr oeddent am ymuno ag ef a pha mor aml yr oeddent yn cyfarfod. Bydd pob clwstwr yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnal cyfarfodydd gyda'r nos.

Mae Swyddogion Sir Ddinbych yn bresennol i wneud cyflwyniadau anffurfiol gyda chyfle i drafod. Gall yr agenda amrywio gan ddibynnu ar y materion sy'n berthnasol i'r ardal honno o'r Sir. Mae'r rhan fwyaf o'r 37 Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych wedi mynychu un o'r 'clystyrau'.

### *Beth sy'n cael ei gyflawni?*

Mae swyddogion y Cyngor Sir yn cael cyfle i gyrraedd a chyfathrebu â nifer o Gynghorau mewn un lleoliad a derbyn adborth gwerthfawr. Mae gan y Cynghorau Tref a Chymuned sy'n mynychu eglurhad manylach o bolisïau newydd a chyfle i ofyn cwestiynau am eglurhad.

Cynhaliwyd y gyfres gyntaf o gyfarfodydd 'clwstwr' ym mis Chwefror a Mawrth 2006 ac roedd yr agenda amrywiol yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad gan Dîm Caffael y Cyngor Sir yn cynnig cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned brynu deunydd ysgrifennu, gwasanaethau ac offer o gontractau a oedd eisoes wedi'i negodi gan y Cyngor Sir.
- Cyflwyniad gan Uned Orfodi'r Cyngor Sir yn amlinellu'r cynlluniau newydd i atal tipio anghyfreithlon, sbwriel, baw cŵn a gwahardd ysmegu drwy system Tocynnau Cosb Benodedig.

- Presenoldeb yn un o gyfarfodydd 'clwstwr' cynrychiolwyr Uned Llywodraeth Leol Cynulliad Cymru. Roedd yr Uned yn cefnogi'r cyfarfod i ymgynghori'n uniongyrchol â grŵp o Gyngorau Tref a Chymuned.
- Cyflwyniad ar ganolfannau ieuencid a gwasanaethau ieuencid sy'n benodol i bob ardal.

*Cyswllt:*

I gael rhagor o wybodaeth am y fenter hon, cysylltwch â David Davies, Swyddog Polisi Strategol, Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706146 neu [david.w.davies@denbighshire.gov.uk](mailto:david.w.davies@denbighshire.gov.uk)

## **Astudiaeth Achos 5 – Cod ymddygiad**

### *Nodau/Amcanion:*

Lleihau'r achosion o dorri Cod Ymddygiad Aelodau'n anfwriadol gan gynghorau cymuned a thref.

### *Ble?*

Wreccsam.

### *Beth a wnaed?*

Mae Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned yn Wreccsam i godi ymwybyddiaeth o ddehongliad cyfredol y Cod ac i ganiatáu trafodaeth ar safonau moesegol sydd o ddiddordeb cyffredin ar draws Cynghorau Tref a Chymuned.

### *Beth wnaeth ei gyflawni?*

Lleihau'r achosion o dorri Cod Ymddygiad Aelodau ac annog gwell dealltwriaeth o ofynion y Cod a threfniadau safonau mwy cadarn mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref/Cymuned.

### *Cyswllt:*

T Coxon

Ffôn: 01978 292202

e-bost: [trevor.coxon@wrexham.gov.uk](mailto:trevor.coxon@wrexham.gov.uk)

### *Mwy o syniadau ... llywodraethu/fframwaith gwell:*

- Swyddog cyswllt cynghorau cymuned a thref benodedig o fewn yr awdurdod lleol. Os nad yw hyn yn bosibl, mae swyddog enwebedig yn helpu i ddarparu canolbwynt a rhywfaint o ddilyniant.
- Sefydlu cydbwyllgorau rhwng yr awdurdod unedol a'r cynghorau cymuned a thref i drafod materion strategol lleol a materion o ddiddordeb cyffredin e.e. y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

## Cyfathrebu

Dylai'r broses o gyfnewid gwybodaeth fod yn ddwy ffordd ac arwain at ddealltwriaeth gytbwys o safbwyntiau pawb sy'n ymwneud â mater. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.

### **Astudiaeth achos 6 – swyddog cyswllt cyngor Cymuned penodedig**

*Nodau/Amcanion:*

Gwella cyfathrebu rhwng yr awdurdod unedol a chynghorau cymuned a thref.

*Ble?*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

*Sut cafodd hyn ei wneud?*

Ceir swyddog penodol sy'n delio â chynghorau cymuned/tref yn gyffredinol – gan dderbyn eu gohebiaeth a gofyn am ymatebion ar eu rhan.

Mae Is-Bwyllgor Cyswllt y Cynghorau Cymuned, sy'n cynnwys dau gynrychiolydd o bob un o'r cynghorau cymuned/tref ac un ar bymtheg o aelodau'r fwrdeistref sirol, yn cyfarfod bob tri mis. Mae'r cynrychiolwyr yn cyfarfod fis cyn y cyfarfod a drefnwyd i drafod pa eitemau y maent am eu cynnwys ar yr agenda. Fel hyn, gall Swyddog Cyswllt y Cynghorau Cymuned sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol ar gael a bod y Swyddog perthnasol yn bresennol i ateb unrhyw ymholiadau a godir bryd hynny. Mae cofnodion y cyfarfodydd hynny yn ddogfen gyhoeddus. Trefnir cyfarfodydd arbennig yn ôl y galw (yn fwy diweddar i roi manylion am oblygiadau Deddf Trwyddedu 2003).

Mae manylion yr adroddiadau sydd i'w cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ac a allai fod o ddiddordeb hefyd yn cael eu hanfon ymlaen at Glercod yn rheolaidd er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o weithgareddau yn eu hardal neu ledled y fwrdeistref sirol. Ceir gweithdrefn ffurfiol hefyd lle ymgynghorir â chynghorau cymuned/tref ar bob cais cynllunio a dderbynnir a chaiff eu sylwadau eu hymgorffori yn yr adroddiad a'u hystyried ar yr adeg y penderfynir ar y cais.

Mae gan y fwrdeistref sirol hefyd siarter y cytunwyd arni gyda chynghorau cymuned a thref sy'n diffinio'r trefniadau cyswllt ac yn tynnu sylw at y cyfnewid gwybodaeth angenrheidiol, yn ogystal â rhestr o bynciau penodol y dylid ymgynghori yn eu cylch. Caiff y siarter ei adolygu gan swyddogion a chynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref yn flynyddol a'i diwygio neu ei diweddarau yn ôl yr angen.

*Pwy oedd yn rhan o hyn?*

Swyddog Cyswllt Cynghorau Cymuned, clercod pob cyngor cymuned a thref a swyddogion perthnasol o'r cyngor sir.

### *Beth wnaeth ei gyflawni?*

Mae cael pwynt cyswllt canolog wedi bod yn ffordd effeithiol o sicrhau bod pob ymholiad a dderbynnir yn cael ei ateb o fewn amser penodol. Yn ychwanegol, mae'r siarter wedi darparu dull cyson o ymgynghori.

Mae'r cyfarfodydd bob tri mis wedi dod yn fwy cynhyrchiol oherwydd bod y swyddog cyswllt wedi'i leoli o fewn Gwasanaethau Pwyllgor a hefyd yn gwasanaethu'r Tîm Rheoli Corfforaethol, felly mae hi'n goruchwyllo eitemau sydd i fod i gael eu trafod a dylid cyfeirio ymwybyddiaeth ohonynt at y cyngor cymuned/tref.

Fel rheol gyffredinol, mae swyddogion sy'n ymgynghori â'r cyngor cymuned/tref berthnasol ynghylch gwahanol faterion yn cynghori'r swyddog cyswllt fel y gall ddiweddarau ei ffeil a'i bod yn ymwybodol o unrhyw ymgynghori o'r fath sy'n digwydd.

### *Cyswllt:*

Helen Morgan, Swyddog Cyswllt y Cyngor Cymuned ar 01443 864267 neu anfon e-bost at [morgah@caerphilly.gov.uk](mailto:morgah@caerphilly.gov.uk)

## **Astudiaeth Achos 7 – Defnyddio holiadur i ymgynghori ag eraill**

*Nodau/Amcanion:*

*Canfod a fyddai gan glercod cynghorau cymuned a thref ddiddordeb mewn mynychu cyfarfodydd cyswllt gyda swyddogion yr awdurdod unedol. Yn y gorffennol, bu'r cyfarfodydd hyn rhwng cynghorwyr o'r ddwy haen.*

*Ble?*

*Cyngor Bro Morgannwg.*

*Sut cafodd hyn ei wneud?*

Paratowyd holiadur gan swyddogion yr awdurdod yn gofyn am wybodaeth megis "Fyddech chi'n croesawu'r cyfle i fynychu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Bro Morgannwg? Pa bynciau hoffech chi eu trafod yn y sesiwn? Pa adrannau o'r cyngor ydych chi'n cysylltu â nhw'n rheolaidd?"

*Pwy oedd yn rhan o hyn?*

Swyddogion yr awdurdod unedol a holl glercod cynghorau cymuned a thref.

*Beth wnaeth ei gyflawni?*

Wedi annog trafodaeth a pherthnasoedd gwaith da.

*Cyswllt:*

*Karen Bowen, Adran Gwasanaethau Democrataidd, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri.*

*Ffôn 01446 709856*

*e-bost: [kBowen@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:kBowen@valeofglamorgan.gov.uk)*

## **Astudiaeth Achos 8 – Cyfarfodydd Cyswllt**

### *Nodau/Amcanion:*

